www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Cymdeithas Abbeyfield Cymru – H113

Chwefror 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78937-435-3
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Mae Cymdeithas Abbeyfield Cymru ("Abbeyfield") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac yn elusen eithriedig gofrestredig gyda'r nod o gefnogi pobl hŷn sydd ag anghenion cymorth a gofal.

Mae Abbeyfield yn berchen ar gyfanswm o 248 o unedau ledled Cymru ac yn eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys 169 o welyau mewn tai gwarchod a 79 o welyau nyrsio cofrestredig. Mae'n gweithio mewn un ar ddeg o awdurdodau lleol: Casnewydd, Pen-y-bont, Caerffili, Sir Fynwy, Powys, Ceredigion, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint ac Abertawe.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2017/18** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | (3.9%) | (3.0%) | dd/g | 21.3% |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | (0.4%) | (1.8%) | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 16.5% | 10.8% | dd/g | 2.0% |

# Dyfarniad Rheoleiddio – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Chwefror 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau – Wedi cynyddu**

- Mae risg, neu gyfuniad o risgiau, yn creu her sylweddol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac mae angen mwy o drosolwg rheoleiddiol.

**Hyfywedd Ariannol - Wedi cynyddu**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ond nid oes ganddi fawr ddim adnoddau ariannol i ymdrin â senarios anffafriol yn effeithiol ac mae angen mwy o drosolwg rheoleiddiol.

Mae angen mwy o drosolwg rheoleiddiol er mwyn cyflawni'r safonau perfformiad canlynol:

**SP2 - Mae'n cynnwys tenantiaid yn effeithiol ac yn briodol a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwella**

- Mae'n bodloni'r holl ofynion statudol cymwys gan ddarparu ar gyfer iechyd a diogelwch y rhai sy'n byw yn y cartref.

**SP4 - Darparu tystiolaeth glir o'r hunanwerthusiad a'r datganiad cydymffurfiaeth**

- Cydymffurfio â Chylchlythyr 02/15 - egwyddorion craidd hunanwerthuso i'w defnyddio gan Gymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, neu unrhyw ganllawiau dilynol sy'n disodli'r Cylchlythyr hwn.

**SP8 - Cynllun ariannol sy'n cyflawni ac yn ategu'r cynllun busnes ac yn sicrhau bod perfformiad ariannol yn cael ei fonitro'n effeithiol**

- Mae'n sicrhau bod y sefydliad yn gadarn yn ariannol.
- Mae'n monitro pob cyfamod, yn adrodd arno ac yn cydymffurfio ag ef.